# Cefnogi unigolion i fonitro cyflyrau iechyd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth gefnogi unigolion i fonitro cyflyrau iechyd. Mae hyn yn cynnwys cefnogi unigolion drwy ymgymryd â’r rôl rydych chi wedi cytuno arni i fonitro cyflwr iechyd unigolion, gan nodi unrhyw newidiadau a chwblhau cofnodion ac adroddiadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i fonitro cyflyrau iechyd unigolion
2. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am gyflyrau iechyd a monitro gofynion unigolion
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi sut y dylid monitro cyflyrau iechyd ac adrodd amdanynt, yn unol â dewisiadau, anghenion, cynllun gofal neu gymorth, a gofynion monitro penodol yr unigolyn
4. gweithio mewn partneriaeth i nodi'r cymorth y mae unigolion ei angen i fonitro cyflyrau iechyd
5. cefnogi unigolion i nodi a chael gafael ar yr wybodaeth, y cymorth neu'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i fonitro cyflyrau iechyd
6. annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i fonitro cyflyrau iechyd
7. monitro cyflyrau iechyd yn unol â dewisiadau, anghenion, cynllun gofal neu gymorth, a gofynion monitro penodol unigolion
8. dilyn y camau gofynnol pan fydd newidiadau yng nghyflwr unigolion
9. cyfrannu at adborth i nodi arferion da a'r newidiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion i fonitro cyflyrau iechyd
10. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion i fonitro cyflyrau iechyd
11. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gefnogi unigolion i fonitro cyflyrau iechyd, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am gyflyrau iechyd a gofynion monitro unigolyn, a'i hadolygu
2. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion i fonitro cyflyrau iechyd
3. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y cymorth mae unigolion ei angen i fonitro cyflyrau iechyd
4. sut mae annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i fonitro cyflyrau iechyd
5. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gynorthwyo unigolion i fonitro cyflyrau iechyd
6. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth fonitro cyflyrau iechyd
7. y mathau o wybodaeth, cymorth ac adnoddau a allai helpu unigolion i ddeall a monitro cyflyrau iechyd
8. yr ystod o gyflyrau iechyd y mae angen eu monitro, sut y dylid gwneud hyn a'i gofnodi ac adrodd amdano
9. sut y gall diwylliant a chefndir unigolyn ddylanwadu ar fonitro cyflyrau iechyd
10. pwysigrwydd monitro'n gywir ac effaith hyn ar gyflyrau iechyd
11. pwysigrwydd arsylwi wrth fonitro cyflyrau iechyd
12. yr ystod o gyfarpar a ddefnyddir i fonitro cyflyrau iechyd
13. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gynorthwyo unigolion i fonitro cyflyrau iechyd
14. sut y gall newidiadau i ddewisiadau, amodau ac amgylchiadau unigolion effeithio ar weithgarwch monitro
15. pam y dylid adrodd ar unwaith ynghylch newidiadau i gyflyrau iechyd neu unrhyw bryderon
16. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi unigolion i fonitro cyflyrau iechyd
17. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi unigolion i fonitro cyflyrau iechyd
18. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi unigolion i fonitro cyflyrau iechyd
19. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi wrth gefnogi unigolion i fonitro cyflyrau iechyd
20. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio

wrth gefnogi unigolion i fonitro cyflyrau iechyd, a sut i fynd i'r afael â hyn
21. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi unigolion i fonitro cyflyrau iechyd

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD223

Cefnogi unigolion i fonitro cyflyrau iechyd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD223 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Monitro, Cyflyrau iechyd, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |